**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 23 Mehefin 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | S J Gallagher | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | E T Kirchner | H Lawson |
| G J Tanner | L V Walton | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gavin Evans | Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tim Moss | Cydlynydd Abertawe'n Gweithio |
| Joanne Thomas | Arweinydd Tîm Mentoriaid Cyflogadwyedd |
| Jo Veck | Uwch-gyfreithiwr |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Dim

---

## 4 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 a 20 Mai 2021 fel cofnod cywir.

## 6 Datblygu Strategaeth Wirfoddoli Cyngor Abertawe. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion ddiweddariad llafar ar y Strategaeth Gwirfoddoli Rhanbarthol fel a ganlyn:

- Byddai'r pecynnau cymorth/cyngor gwybodaeth yn cael eu lansio'r wythnos ar ôl y nesaf, gan gynnwys y pecyn cymorth gwirfoddoli gwyrdd / amgylcheddol a'r pecyn cymorth gwirfoddoli amrywiol sylfaenol. Byddai'r rhain yn cael eu

cynnal yn rhanbarthol ar wefannau gwahanol bartneriaid a byddai rhagor o fanylion yn cael eu dosbarthu maes o law;

- Roedd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect Gwirfoddoli Rhanbarthol sy'n gysylltiedig â'r pecynnau cymorth wedi'i ddatblygu'n rhanbarthol gan Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, y Bwrdd Iechyd a CGSau yn ganolog, ac roedd hyfforddiant perthnasol wedi'i ddarparu.
- Defnyddiwyd arian dros ben ychwanegol tuag at swydd Prosiect Gwirfoddoli Rhanbarthol a fyddai'n cael ei hysbysebu cyn bo hir. Byddai'r swydd yn cefnogi ac yn datblygu gwaith y Strategaeth Gwirfoddoli, a oedd ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac a fyddai'n cael ei chyd-gynhyrchu â phartneriaid.
- Byddai Strategaeth ddrafft yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl yn ystod y misoedd nesaf a dylid cwblhau a chyhoeddi'r Strategaeth derfynol yn ystod y 6 mis nesaf.
- Roedd amserlen debyg hefyd ar gyfer y swydd wirfoddoli ranbarthol wrth gefnogi'r broses rhwng nawr a mis Mawrth nesaf, gan orffen ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion am y diweddariad.

**Penderfynwyd** cofnodi'r diweddariad llafar.

## 7 Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd Gavin Evans, Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc ddiweddariad llafar ar y Strategaeth Gofalwyr Ifanc fel a ganlyn:

Penodwyd y swyddog penodedig yn yr YMCA i gefnogi'r Gofalwyr Ifanc a'r Fforwm Gofalwyr Ifanc. Derbyniwyd enwebiadau i'r Fforwm ac roedd cynnydd da'n cael ei wneud. Roedd y trafodaethau cychwynnol wedi dechrau ac roedd y Fforwm yn awyddus i gyd-gynhyrchu'r strategaeth. Byddai cyfarfodydd rhwng Swyddogion a'r Gofalwyr Ifanc yn dechrau dros yr haf, gyda dyddiad cwblhau delfrydol o fis Hydref. Fodd bynnag, gallai'r amserlen honno amrywio gan fod angen o hyd i ddeall mwy am sut y mae'r gofalwyr ifanc am lunio'r strategaeth, a'r gwaith y byddai hyn yn ei olygu. Byddai'r Cynghorydd Evans hefyd yn cael ei wahodd i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hynny.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog dros Gymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc am y diweddariad.

**Penderfynwyd** cofnodi'r diweddariad llafar.

## 8 Cyngor Abertawe - Darpariaeth Cyflogadwyedd.

Rhoddodd Elliott Williams, Rheolwr Cyllid Allanol, gyda chefnogaeth Joanne Thomas, Arweinydd Tîm Mentor Cyflogadwyedd a Tim Moss, Cydlynydd Abertawe’n Gweithio, gyflwyniad ar y Ddarpariaeth Cyflogadwyedd bresennol ar gyfer Cyngor Abertawe.

Amlinellodd fanylion y cynlluniau canlynol, o dan "Abertawe'n Gweithio" a'r cymorth a gynigir mewn perthynas â:

- Chymunedau am Waith;
- Cam Nesa;
- Gweithffyrdd+;
- Diweithdra Tymor Byr Gweithffyrdd+;
- Cymunedau am Waith +.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Allanol y materion allweddol o ran:

- Ffocws 1 - Cefnogi pobl ifanc i gael gwaith;
- Ffocws 2 – Y Cynllun Kick-Start.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried pa un o'r ddau gynllun yr oeddent am ganolbwyntio arno ar gyfer eu trydydd pwnc yn 2021-2022.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cyflwyniad;
2) Bydd y Cadeirydd yn cynnal trafodaethau pellach gyda'r Swyddogion ynglŷn â'r opsiynau cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 28 Gorffennaf 2021.

**9 Cynllun Gwaith Drafft 2021-2022.**

Amlinellodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

**Penderfynwyd** nodi’r Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.50 pm

**Cadeirydd**